

| English | Welsh |
|---|---|
| <p data-bbox="236 344 475 383">Easter Praise!</p> <p data-bbox="236 434 533 472">Pupil's Wordbook</p> <p data-bbox="236 562 619 685">Sheila Wilson REDHEAD MUSIC WORDBOOK EPR113</p> <p data-bbox="236 734 624 815">With lyrics, actions and narration/play</p> <p data-bbox="236 864 772 945">Key Stage 1 + extra material for KS2</p> <p data-bbox="236 994 724 1075">Music Book EPR111 and CD EPR112 also available</p> <p data-bbox="236 1124 699 1162">© Redhead Music Ltd 2002</p> <p data-bbox="236 1245 485 1283">Composer's Note</p> <p data-bbox="236 1283 783 1682">This Easter musical is suitable for Key Stages 1 and 2, and can be adapted according to age and ability or simply the length of performance you would prefer. For Key Stage 1, or for a shorter performance: use songs 1 and 3, chants 5 and 7, plus song 8. For Key Stage 2, or for a full length performance: add optional songs 2, 4 and 6. Narration is provided for both versions. Permission is given to simplify the narration for younger children as required.</p> | <p data-bbox="805 344 1034 383">Mawl y Pasg!</p> <p data-bbox="805 434 1166 472">Llyfr Geiriau'r Disgybl</p> <p data-bbox="805 562 1246 685">Sheila Wilson REDHEAD MUSIC LLYFR GEIRIAU EPR113</p> <p data-bbox="805 734 1310 815">Gyda geiriau'r caneuon, symudiadau a'r adrodd/drama</p> <p data-bbox="805 864 1310 945">Cyfnod Allweddol 1 + defnydd ychwanegol ar gyfer CA2</p> <p data-bbox="805 994 1326 1075">Mae Llyfr Cerdd EPR111 a CD EPR 112 ar gael hefyd</p> <p data-bbox="805 1124 1268 1162">© Redhead Music Ltd 2002</p> <p data-bbox="805 1245 1187 1283">Nodyn gan y Cyfansoddwr</p> <p data-bbox="805 1283 1358 1783">Mae'r sioe gerdd hon ar gyfer y Pasg yn addas i ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 1 a 2 a gallwch ei haddasu yn ôl oedran a gallu'r plant, neu newid hyd y perfformiad yn ôl eich dewis. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, neu ar gyfer perfformiad byrrach: defnyddiwch ganeuon 1 a 3, siantau 5 a 7, a chân 8. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, neu ar gyfer perfformiad hirach: ychwanegwch ganeuon opsiynol 2, 4 a 6. Mae geiriau adroddwr y stori i'w cael ar gyfer y ddau fersiwn. Rhoddir caniatâd i chi symleiddio geiriad y darnau i adroddwr y stori os bydd hynny'n ofynnol i blant iau.</p> |

Cast:

Disciples – up to twelve, including:
Peter
Judas

Plus minimum of two speaking parts

Jesus
Caiaphas (High Priest)
Chief Priest and Priests
1st Man
2nd Man
Pontius Pilate, the Governor
Mary
Mary Magdalene
Crowd
Choir

An excited crowd (of any size) gather on stage, holding palm leaves. They join in the actions with the choir. (Jesus is not on stage.)

Song 1. It's Jesus!

(Stand still for each intro)

**1 Take a palm-leaf and hold it high,
Someone special is coming by!
Wave your palm-leaf from left to right,
This is such an exciting sight!**

*Hold up palm leaf (r.h.)
Shake it
Sway left to right
(Continue)*

2 Instrumental (kazoos)

Chorus **It's Jesus, riding on a donkey,
Jesus, riding on a donkey
Jesus, coming to Jerusalem!**

3 Repeat verse 1

Y Cast:

Disgyblion – hyd at ddeuddeg, yn cynnwys:
Pedr
Jwdas
Ac o leiaf ddau gymeriad sy'n siarad lesu
Caiaffas (Uwch Offeiriad)
Prif Offeiriad ac Offeiriaid
Dyn 1af
2il Ddyn
Pontiws Pilat, y Rhaglaw
Mair
Mair Magdalen
Y Dorf
Y Côr

Mae torf (o unrhyw faint) o bobl sy'n llawn cyffro yn dod at ei gilydd ar y llwyfan, yn dal dail palmwydd. Maen nhw'n dechrau gwneud yr un symudiadau â'r cor. (Dydy lesu ddim ar y llwyfan.)

Cân 1. O Iesu!

(Sefwch yn llonydd yn ystod y gerddoriaeth gyflwyno)

**1 Cymer ddeilen a'i chodi fry,
I'w groesawu yn hapus lu!
Sigla'r ddeilen o'r chwith i'r dde
Dyma gyffro yn llenwi'r lle!**

*Daliwch y ddeilen i fyny (llaw dde)
Ysgwydwch y ddeilen
Siglwch o'r chwith i'r dde
(Parhau)*

2 Dim ond y gerddoriaeth (caswau)

Cytgan **O Iesu'n teithio ar yr asyn
Iesu'n teithio ar yr asyn
Iesu, croeso i Jeriwsalem!**

3 Ailadrodd pennill 1

Crowd: It's so exciting – let's see where He's going!
They run off.

Jesus enters the stage with disciples (including Peter and Judas).

Peter: This is wonderful!

A disciple: At last everyone will see Jesus!

Jesus: (Seriously) That's not how it will be – the Son of Man will be handed over and crucified.

Disciples: What does He mean?

Peter: I don't know! Everyone's pleased to see him!

Jesus walks off stage and all follow except Judas.

Caiaphas (the High Priest), Chief Priest and Elders (any number) walk on pompously.

Caiaphas: Come here, Judas! Have you made up your mind what to do?

C. Priest: Will you betray Jesus to us?

Judas hesitates, and then comes forward.

Key Stage 2: sing next song;
Key Stage 1: Judas speaks the first two lines (or all of it).

Song 2 Show me the money!
(Optional song)

Judas I will betray Him – show me the money!

Y Dorf: Dyma gyffrous – dewch i weld lle mae'n mynd!
Maen nhw'n rhedeg i ffwrdd.

Daw Iesu ar y llwyfan gyda disgyblion (yn cynnwys Pedr a Jwdas).

Pedr: Mae hyn yn wych!

Disgybl: O'r diwedd, bydd pawb yn gweld Iesu!

Iesu: (Yn ddifrifol) Na, ddim felly bydd hi – mae Mab Duw'n mynd i gael ei ddal a'i groeshoelio.

Disgybl: Be' mae E'n feddwl?

Pedr: Dim syniad! Mae pawb mor hapus i'w weld!

Mae Iesu'n cerdded oddi ar y llwyfan ac mae pawb, heblaw Jwdas, yn ei ddilyn.

Mae Caiaffas (yr Uwch Offeiriad), y Prif Offeiriad a'r Henuriaid (unrhyw nifer) yn cerdded i'r llwyfan yn bwysig.

Caiaffas: Tyrd yma, Jwdas! Wyt ti wedi penderfynu beth i'w wneud eto?

Prif Offeiriad: Wnei di fradychu Iesu a'n cymryd ni ato?

Mae Jwdas yn oedi, ac yna'n camu ymlaen.

Cyfnod Allweddol 2: yn canu'r gân nesaf;
Cam Allweddol 1: Mae Jwdas yn dweud y ddwy linell gyntaf (neu'r geiriau i gyd).

Cân 2 Ga' i weld yr arian?
(Cân opsiynol)

Jwdas lawn fe'ch cymeraf – ga' i weld yr arian?

I will betray Him – what will you pay?

He was supposed to lead us to victory,

Show His power quickly!

He just won't do!

I will betray Him to you!

Repeat (all sing)

Caiaphas: **I have here 30 silver coins...**

Judas: **A fair price!**

C. Priest: **Look for any chance you can – then betray Jesus to us!**

Caiaphas: **Yes, we want to get rid of Him, for good!**

All leave except Judas.

Judas: *(Thoughtfully)* **For good? Or for bad?**

He shakes the money-bag guiltily, and then leaves too.

Jesus and the disciples enter, and sit together to eat. Judas hurries on just afterwards and joins in.

Peter: **It's good to share the Passover meal altogether like this.**

Jesus: **This is the last time I shall share the bread and wine with you.**

A disciple: **No!**

Another: **Why?**

Jesus: **One of you will betray me.**

All: **No!**

Jesus: **One of you who is eating with me now.** *(He hands Judas some bread.)*

But every time you share bread and wine together, remember Me.

Yn syth at Iesu – faint dalwch chi?

Roedd am ein harwain i fuddugoliaeth,

Ennyn canmoliaeth!

Nid felly bu!

Rwyf am ei ddangos i chi!

Ailadrodd (pawb yn canu)

Caiaffas: **Mae gen i 30 darn arian i ti fan hyn...**

Jwdas: **Pris teg!**

Uwch Offeiriad: **Arhosa am dy gyfle – yna dangosa Iesu i ni!**

Caiaffas: **Ie, yna gallwn gael gwared ohono er lles pawb!**

Pawb yn gadael heblaw Jwdas.

Jwdas: *(Yn bell ei feddwl)*

Er lles? Neu er drwg?

Mae'n ysgwyd y bag arian yn euog, yna mae e'n gadael hefyd.

Daw Iesu a'r disgyblion i mewn, ac eistedd gyda'i gilydd i fwyta. Mae Jwdas yn brysio i mewn ychydig yn hwyr ac yn ymuno â nhw.

Pedr: **Mae'n braf rhannu pryd y Pasg gyda'n gilydd fel hyn.**

Iesu: **Dyma'r tro olaf y byddaf yn rhannu bara a gwin gyda chi.**

Disgybl: **Na!**

Un arall: **Pam?**

Iesu: **Mae un ohonoch yn mynd i fy mradychu.**

Pawb: **Na!**

Iesu: **Un ohonoch sy'n bwyta gyda ni nawr.** *(Mae'n rhoi bara i Jwdas.)*

Ond bob tro y byddwch chi'n rhannu bara a gwin gyda'ch gilydd, cofiwch Fi.

Song 3. Remember Me

1. All Every time you meet together,
Sharing wine and bread,
Remember Me, remember all
The words that I have said.

Chorus **My body and My blood are like**

**The bread and wine you share;
When two or three are gathered
In My name, I'll still be there.**

2 Instrumental

Chorus **My body and My blood are like**

**The bread and wine you share;
When two or three are gathered
In My name, I'll still be there.
When two or three are gathered
In My name, I will be there.**

At the end of the meal, they all stand and start to move off stage, but Jesus and Peter stay behind (clearing up the food).

Peter: Even if everyone else betrayed you, Lord, I wouldn't.

Jesus: Peter, I tell you the truth – tonight, before the cock crows, you will pretend you don't even know me! Three times!

Peter: No – it can't be true!

Key Stage 2: sing next song;
Key Stage 1: Peter speaks first two lines (or all of it).

Song 4. I won't deny You!
(Optional, to song 2 music)

Peter/All I won't deny You – I can be trusted

Cân 3. Cofiwch Fi

1. Pawb Pan ddaw pawb ynghyd i rannu
**Gwin a bara'n llu,
Cofiwch Fi a chofiwch bopeth
Ddwedais wrthy ch.**

Cytgan **Fy nghorff a'm gwaed
yw'r gwin a'r bara**

**[A] rannwch yn eich cwrdd
Pan ddewch ynghyd i fwyta
Byddaf yno wrth eich bwrdd.**

2 Cerddoriaeth yn unig

Cytgan **Fy nghorff a'm gwaed
yw'r gwin a'r bara**

**[A] rannwch yn eich cwrdd
Pan ddewch ynghyd i fwyta
Byddaf yno wrth eich bwrdd.
Pan ddewch ynghyd i fwyta
Byddaf yno wrth eich bwrdd.**

Ar ddiwedd y pryd, mae pawb yn sefyll ac yn dechrau cerdded oddi ar y llwyfan, ond mae Iesu a Pedr yn aros (yn clirio'r bwyd.)

**Pedr: Hyd yn oed os bydd pawb arall yn dy fradychu,
Arglwydd, allwn i byth.**

Iesu: Pedr, rwy'n dweud y gwir – heno, cyn i'r ceiliog ganu, rwy't am ddweud nad ydw i'n ffrind i ti! Dair gwaith!

Pedr: Na – dydy hynny dim yn wir!

Cam Allweddol 2: yn canu'r gân nesaf;
Cam Allweddol 1: mae Pedr yn dweud y ddwy linell gyntaf (neu'r geiriau i gyd).

Cân 4. Ni wnaif Dy wadu!
(Opsynol, i gerddoriaeth cân 2)

Pedr/Pawb Ni wnaif dy wadu – rwyf i'n dy garu

**I won't deny You – I will stand firm!
You are the One I've waited and prayed for;
I'm not afraid, for
What can man do?
I would die gladly for You.**

Peter: Yes, I would sooner die than betray you! Come on, let's catch the others up!

They leave the stage; then all enter the stage again except Judas.

Jesus: Wait here and keep watch whilst I pray.

He goes to the front and prays; the disciples fall asleep.

Dear Father, I wish there was another way. But it's not about my will, but Yours. He turns round and sees the disciples sleeping.

Can't you stay awake with me? You should pray. The spirit is willing, but the body is weak.

The disciples try to wake up. Jesus prays again.

Father, if it's not possible to change the plan, then let it be done Your way.

He turns round and sees them sleeping, then shrugs.

Father, I wish there was an easier way, but let your will be done.

He turns back to the disciples.

**Ni wnaf dy wadu – byddaf yn gryf!
Ti ydyw'r Un yr arhosais amdano;
Gweddïais amdano
Clywa fy nghri
Byddwn i farw i Ti**

Peter: Mae'n wir, byddai'n well gen i farw na Dy wadu Di! Tyrd, gad i ni fynd ar ôl y lleill!

Maent yn gadael y llwyfan; yna daw pawb ar y llwyfan eto heblaw Jwdas.

Iesu: Arhoswch yma i wyllo tra bydda i'n gweddïo.

Mae'n mynd i flaen y llwyfan ac yn gweddïo; mae'r disgyblion yn mynd i gysgu.

Annwyl Dad, pam fod yn rhaid i mi ddiodef? Wel, Dy ewyllys di sy'n bwysig, does gen i ddim dewis. Mae'n troi i edrych o'i gwmpas ac yn gweld y disgyblion yn cysgu.

Pam eich bod yn cysgu? Dylech aros yn effro gyda mi a gweddïo. Maen nhw eisiau helpu ond maen nhw wedi blino.

Mae'r disgyblion yn ceisio deffro. Mae Iesu'n gweddïo eto.

O Dad, os oes raid i mi ddiodef, dyna fel y bydd hi. Y ffordd rwy'ti wedi'i dewis.

Mae'n troi ac yn gweld y dynion yn cysgu ac mae'n codi ei ysgwyddau.

O Dad, biti nad oes ffordd haws, ond rhaid dilyn Dy ewyllys Di.

Mae'n troi'n ôl at y disgyblion.

Come on, wake up – the time has come for the Son of man to be betrayed into the hands of sinners...

Judas rushes on, with the Chief Priests, and a crowd who have swords.

Judas: **(To crowd) I'll greet Him with a kiss. Jesus!** *(He embraces him)*

Jesus: **Go ahead, friend, do what you came to do.**

Judas beckons to the men; they rush forward, roughly grab Jesus and push the disciples about.

Jesus: **Let there be no fighting! You could have arrested me any day in the temple. If I wanted to, I could call on God's angels to rescue me, but let God's will be done.**

The disciples run off, apart from Peter who hides and watches.

Caiaphas enters the stage and they push Jesus to his knees in front of him.

Caiaphas: **Are you Christ, the Son of God?**

Jesus: **Yes! And one day you will see me at the right hand of God!**

Priests: **Blasphemy!**

Caiaphas: **Yes, blasphemy! He should die!**

The Priests take Jesus off, but the crowd remains. They see Peter,

Dewch gyfeillion, deffrowch – mae'n amser i Fab Duw gael ei fradychu a'i roi i'r pechaduriaid...

Mae Jwdas yn rhuthro i'r llwyfan, gyda'r Prif Offeiriaid, a thorf o bobl gyda chleddyfau.

Jwdas: **(I'r dorf) Rwyf am roi cusan iddo. Iesu!** *(Mae'n ei gofleidio)*

Iesu: **Gyfaill annwyl, gwna beth sydd raid.**

Mae Jwdas yn galw'r dynion draw gyda'i law; maen nhw'n rhuthro ymlaen, yn gafael yn frwnt yn Iesu ac yn gwthio'r disgyblion.

Iesu: **Peidiwch â brwydro! Roeddwn i yn y deml bob dydd – ond ni ddaethoch yno i'm cymryd. Gallwn alw ar angylion Duw i ddod i'm hachub, ond wna i ddim. Rhaid dilyn ewyllys Duw.**

Mae'r disgyblion yn rhedeg oddi ar y llwyfan, heblaw Pedr sy'n cuddio ac yn gwyllo.

Daw Caiaffas ar y llwyfan ac maen nhw'n gwthio Iesu ar ei liniau o flaen Caiaffas.

Caiaffas: **Ai ti yw Crist fab Duw?**

Iesu: **Ia! Ac un diwrnod byddaf yn eistedd wrth law Duw yn y nefoedd!**

Offeiriaid: **Cabledd!**

Caiaffas: **Ie, cabledd! Dylai farw!**

Mae'r Offeiriaid yn cymryd Iesu oddi ar y llwyfan, ond mae'r dorf yn aros

mutter together, then step towards him. He stands up, nervously.

Song 5. Come on, Peter! (A chant)

Chorus (All): **Come on Peter, don't pretend!
We know you were Jesus' friend!**

1. (Peter) **I will tell you just one time:
Jesus was no friend of mine!**

Chorus
2. (Peter) **I will tell you one more time:
Jesus was no friend of mine!**

Chorus
3. (Peter) **I will tell you one last time:
Jesus was no friend of mine!**

Rhythmic accompaniment

Repeat four times for introduction, then all through the chant, on each beat as follows:

*Slap! (right thigh)
Slap! (left thigh)
Clap!
Rest*

Also between each section and at the end if you wish

The crowd mutter again then leave him. A cock-crowing noise can happen off stage if you wish, but this could cause amusement, so it is not essential to hear it.

1st man: **What was that?**
2nd man: **Just a cock crowing!**

yno. Maen nhw'n gweld Pedr. Ar ôl siarad ymysg ei gilydd maen nhw'n camu tuag ato. Mae'n codi ar ei draed yn nerfus.

Cân 5. Pedr! Pedr! (Siant)

Cytgan (Pawb): **Pedr! Pedr! Paid dweud na!
Rwy'ti a Iesu'n ffrindiau da!**

1. (Pedr) **Celwydd! Celwydd! Wir i chi:
Nid yw Iesu'n ffrind i mi!**

Cytgan
2. (Pedr) **Celwydd! Celwydd! Wir i chi:
Nid yw Iesu'n ffrind i mi!**

Cytgan
3. (Pedr) **Celwydd! Celwydd! Wir i chi:
Nid yw Iesu'n ffrind i mi!**

Cyfeiliant rhythmig

Ailadroddwch y rhythm bedair gwaith ar gyfer y cyflwyniad, yna drwy'r siant i gyd, ar bob curiad fel hyn:

*Slap! (y goes dde)
Slap! (y goes chwith)
Clap!
Seibiant*

Hefyd, rhwng pob darn ac ar y diwedd os dewiswch.

Mae'r dorf yn siarad ymysg ei gilydd eto yna'n ei adael. Os dewiswch gallwch gael sŵn ceiliog yn canu y tu ôl i'r llwyfan, ond gallai hyn achosi doniolwch, felly does dim rhaid ei glywed.

Dyn 1af: **Be' oedd y sŵn yna?**
2il ddyn: **Dim ond ceiliog yn canu!**

(They leave)

Peter: **A cock crowing! Oh no!**

Key Stage 2: Peter sings song;
Key Stage 1: Omit song. Peter
speaks first two lines

Song 6. What have I done?

(Optional, to music of song 2)

Peter/All I have betrayed Him –
what was I thinking?
I have betrayed Him – what have I
done?
He was the hope for all of the
nations,
For all creation:
God's only Son.
Tell me, oh what have I done?

Peter drops to his knees.

*Judas enters. He opens the
moneybag and looks in.*

Judas: **And what have I done?**

*He empties the money on the floor.
After a pause, Judas and Peter walk
off (not together).*

*The Chief Priests push Jesus on
stage, followed by the crowd and
Pontius Pilate.*

Priests: **This is Jesus, the man we
told you about!**

Pilate: **Are you the King of the
Jews?**

Jesus: **It is as you say.**

Pilate: **Don't you want to defend
yourself? Jesus does not reply.**

Then I wash my hands of this!

(Maent yn cerdded oddi ar y llwyfan)

Pedr: **Ceiliog yn canu! O na!**

Cam Allweddol 2: Mae Pedr yn canu
cân;
Cyfnod Allweddol 1: Peidio cynnwys
y gân. Mae Pedr yn dweud y ddwy
linell gyntaf.

Cân 6. Beth wnes i?

(Dewisol, i gerddoriaeth cân 2)

Pedr/Pawb **Gwadais fy nghyfaill
– beth oedd fy mwriad?
Gwadais fy nghyfaill – pam yn fy
myw?
Ef oedd y gobaith i achub y byd,
Dynoliaeth i gyd:
Unig fab Duw.
Beth wnes i, beth yn fy myw?**

Mae Pedr yn syrthio ar ei liniau.

*Daw Jwdas i mewn. Mae'n agor y
bag arian ac yn edrych i mewn iddo.*

Jwdas: **A beth wnes i?**

*Mae'n gwagio'r arian ar y llawr.
Ar ôl seibiant, mae Jwdas a Pedr yn
cerdded i ffwrdd (nid gyda'i gilydd).*

*Mae'r Prif Offeiriaid yn gwthio Iesu
ar y llwyfan, ac mae'r dyrfa a
Pontiws Pilat yn dod i'r llwyfan ar ei
ôl.*

Offeiriaid: **Dyma Iesu, y dyn
roedden ni'n sôn amdano!**

Pilat: **Ai ti yw Brenin yr Iddewon?
Iesu: Mae eich geiriau'n gywir.**

Pilat: **Pam nad wyt ti'n amddiffyn
dy hun? Dydy Iesu ddim yn ateb.**

lawn, dyna ddiwedd y mater!

But the people are allowed to choose one man to be spared from death. (To crowd) These men are to be crucified! But you may choose Barabbus or Jesus to be spared.

Song 7. Crucify! Crucify!
(A chant, to the same rhythm as before)
Crucify! Crucify!
Jesus is the one to die!

Repeat as often as required

The Chief Priests take Jesus off, followed by everyone else on stage.

There is a moment's pause (with lights down if you have them). Then the disciples come on stage, grief-stricken and supporting each other.

Disciple: **He's dead, I can't believe it!**
Peter: **Everything we believed in is gone.**

Disciple: **Look, here come Mary and Mary Magdalene.** (*They enter, wearily.*)

Mary: **I'm so sad, I can hardly stop crying...**
M.M.: **We're going to check that the tomb is alright.**

They leave, supporting each other; the disciples leave too.

Mary and Mary Magdalene run on, pointing.

Rhaid i'r bobl ddewis un dyn i'w achub ac un dyn i farw. (Yn troi at y dorf) Mae'r dynion yma'n aros i gael eu croeshoelio! Ond cewch ddewis un i fynd yn rhydd. Pwy ydych chi am ei roi ar y groes, Barabbas neu Iesu?

Cân 7. Ar y groes! Ar y groes!
(Siant, i'r un rhythm ag o'r blaen)

Ar y groes! Ar y groes!
Clymwch Iesu ar y groes!

Ailadroddwch mor aml ag y dewiswch.

Mae'r Prif Offeiriaid yn cymryd Iesu oddi ar y llwyfan, ac mae pawb arall sydd ar y llwyfan yn eu dilyn.

Ceir ennyd o seibiant (gyda'r goleuadau'n isel os oes gennych rai), yna daw'r disgyblion i'r llwyfan, yn galaru ac yn dal ei gilydd.

Disgybl: **Mae wedi marw. Mae'n anodd credu!**
Pedr: **Mae popeth roedden ni'n credu ynddo wedi mynd.**

Disgybl: **Edrychwch, dyma Mair a Mair Magdalen.** (*Maen nhw'n cerdded i mewn yn flinedig.*)

Mair: **Rydw i mor drist, mae'n anodd peidio crio...**
M.M.: **Tyrd, gad i ni fynd at fedd Iesu.**

Maen nhw'n gadael, yn helpu ei gilydd; mae'r disgyblion yn gadael hefyd.

Daw Mair a Mair Magdalen yn rhedeg i'r llwyfan, yn pwyntio.

Mary: Oh no! What's happened now?

MM: They've killed him, and now they've wrecked the tomb as well!

Mary: The rock has been moved from the entrance –

MM: – and someone's stolen the body!

The choir sing the next song with hand-jives, and all the cast quickly reassemble and join in:

Song 8. Easter Praise!

1. All Mary,* Mary,* don't be sad,
**Choir point to them*

We've got news to make you glad!

**Even in our darkest hour,
We have seen God's mighty power!**

Chorus God has rolled the rock away!

**He has rolled the rock away!
There's no body where Jesus lay:
He has risen on Easter day!**

**God has rolled the rock away!
(Rock and roll!)**

**He has rolled the rock away!
(Rock and roll!)**

**There's no body where Jesus lay:
(Rock and roll!)**

He has risen on Easter day!

*Roll hands over one another
Hold elbow, circle l.h. in air, then r.h.
(repeat)
Cross hands to left then right, repeat
Bend down, rise slowly wiggling hands **

Mair: O na! Beth sydd wedi digwydd nawr?

MM: Maen nhw wedi lladd Iesu, a nawr maen nhw wedi dinistrio'r bedd hefyd!

Mair: Mae rhywun wedi symud y maen ac agor y bedd –

MM: – ac mae rhywun wedi dwyn y corff!

Mae'r côr yn canu'r gân nesaf gyda symudiadau roc, a'r cast yn dod at ei gilydd eto ac yn ymuno yn y canu a'r symudiadau:

Cân 8. Mawl y Pasg!

1. Pawb Mair* - o, Mair* - o, paid tristau,
**Y côr yn pwyntio atynt*

**Rhaid i tithau lawenhau,
O'r tywyllwch cododd Duw Iesu Grist yn ôl yn fyw!**

Cytgan Gwthiodd Duw y garreg fawr,

**Drws y bedd sy'n 'gored nawr!
Cafodd Iesu ddod yn rhydd,
Sul y Pasg sy'n hapus ddydd!**

**Gwthiodd Duw y garreg fawr,
(Hwre!)**

**Drws y bedd sy'n 'gored nawr!
(Hwre!)**

**Cafodd Iesu ddod yn rhydd,
(Hwre!)**

Sul y Pasg sy'n hapus ddydd!

*Rholio'r dwylo dros ei gilydd
Dal y penelin, troi'r llaw chwith yn yr awyr, yna'r llaw dde (ail adrodd)
Croesi'r dwylo i'r chwith wedyn i'r dde, ail adrodd
Plygu i lawr, codi'n araf gan ysgwyd y dwylo **

2. Come on,* come on,* everyone

– **Beckon to audience*

Sing our resurrection song!

All together, voices raised,

Join us in our Easter praise!

Chorus **God has rolled the rock away!**

He has rolled the rock away!

There's no body where Jesus lay:

He has risen on Easter day!

God has rolled the rock away!

(Hallelujah)

There's no body where Jesus lay:

He has risen on Easter, risen on

Easter,

Risen on Easter, risen on Easter

day!

Yeah!

** Hand-jives to be repeated throughout all choruses*

(also sway left to right twice per line)

Optional Readings:

John 11; 25

Jesus said: I am the resurrection and the life; whoever believes in Me will

live, even though he dies!

Romans 8; 11

If the spirit of God who raised Christ from the dead, lives in you, then He will give life to your bodies too, through His spirit who lives in you!

Optional prayer:

Dear Father

We thank You for sending Your Son

2. Codwch,* codwch,* codwch lef

– **Yn annog y gynulleidfa i ymuno yn y gân*

Codwch leisiau fry i'r nef!

Cododd Iesu eto'n fyw,

Rhodddwn Fawl y Pasg i Dduw!

Cytgan **Gwthiodd Duw y garreg fawr,**

Drws y bedd sy'n 'gored nawr!

Cafodd Iesu ddod yn rhydd,

Sul y Pasg sy'n hapus ddydd!

Gwthiodd Duw y garreg fawr,

(Haleliwia)

Drws y bedd sy'n 'gored nawr!

(Haleliwia!)

Cafodd Iesu ddod yn rhydd,

Sul y Pasg sy'n hapus, Pasg sy'n

hapus,

Pasg sy'n hapus, Pasg sy'n

hapus ddydd!

leeee!

** Ail adrodd y 'jive dwylo' drwy bob cytgan*

(a siglo o'r chwith i'r dde ddwy waith ymhob llinell)

Darlleniadau Opsiynol:

Ioan 11; 25

Dyweddodd Iesu: Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof Fi, er iddo farw, fe fydd byw!

Rhufeiniaid 8; 11

Os yw ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yn rhoi bywyd newydd hyd yn oed i'ch cyrff marwol chi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi!

Gweddi Opsiynol:

Annwyl Dad,

Diolch am anfon Dy Fab i'r byd fel

to earth so that, through Him, we can know You. We praise You for the power that raised Him from the dead.

We pray that we may know Your power in each of our lives too, Amen.

Optional finale:

Repeat final song

SHEILA WILSON composer and publisher

Juniper House 25 Spinfield Park
Marlow Bucks SL7 2DD

Tel: 01628 473806 Fax: 01628
890240

email: sales@redheadmusic.co.uk
www.redheadmusic.co.uk

International copyright secured. All rights reserved. ISBN 1 9001 8517 2

Welsh Translation by Sian Jones
Member of the Association of Welsh Translators and Interpreters
tel: 01745 571461
email: cyfieithu@hotmail.com

ein bod, drwyddo Ef, yn dod i Dy nabod Di. Molwn Di am y grym a gododd Iesu o'r marw'n fyw.

Gweddiwn y cawn deimlo Dy rym ymhob un o'n bywydau ni hefyd, Amen.

Gorffeniad Opsiynol:

Ailadrodd y gân derfynol

SHEILA WILSON cyfansoddwr a chyhoeddwr

Juniper House 25 Spinfield Park
Marlow Bucks SL7 2DD

Ffôn: 01628 473806 Ffacs: 01628
890240

ebost: sales@redheadmusic.co.uk
www.redheadmusic.co.uk

Sicrheir hawlfraint fewnol. Cedwir pob hawl. ISBN 1 9001 8517 2

Cyfieithiad Cymraeg gan Sian Jones
Aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru
ffôn: 01745 571461
ebost: cyfieithu@hotmail.com